Camau Cynnar gyda'n Gilydd
Early Action Together

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

# Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME):

## Dilyniant heddlu a phartneriaid wedi 15 mis

# Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME):

## Dilyniant heddlu a phartneriaid wedi 15 mis

### Awduron

Gabriela Ramos Rodriguez[1], Dr Freya Glendinning[2], Sophie Harker[1], a Dr Hayley Janssen[1].

[1] Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.

[2] Uned Gydweithredu Iechyd Cyhoeddus, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

### Diolchiadau

Ariannodd y Swyddfa Gartref y gwaith hwn drwy gronfa Gweddnewid yr Heddlu (cyf: PR-105).

Hoffem fynegi ein diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwerthusiad, gan gynnwys swyddogion yr heddlu a staff partneriaid aml-asiantaeth yn gweithio ar draws heddluoedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru.

Diolch i'r Gwasanaeth Cydlynwyr ACE Cenedlaethol, Barnardo's Cymru, am ganiatáu mynediad llawn i'r tîm ymchwil at holl elfennau'r hyfforddiant ACE TIME.

Diolch i heddluoedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru, yn enwedig y Timau Cyflawni Lleol o fewn pob heddlu, am gefnogi'r gwaith o ddarparu'r hyfforddiant ac am roi mynediad i'r tîm ymchwil er mwyn iddynt gynnal y gwerthusiad.

Hoffem ddiolch hefyd i dîm cenedlaethol y rhaglen, ac Afonso Palma a Joseff Bromwell o'r tîm cefnogi Camau Cynnar Gyda'n Gilydd am eu cymorth. Yn olaf, diolch i'n hadolygwyr Katie Hardcastle, Shaun Kelly, Sara Wood, a Dr Rebecca Hill am ddarparu adborth gwerthfawr.


ISBN: 978-1-78986-154-123

© 2020 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, dyluniad a chynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Strwythur y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd




## Nodau Cyffredinol y Rhaglen

Trawsnewid ymatebion yr heddlu a phartneriaid i bobl sy'n agored i niwed, i gyflwyno dull systemau cyfan amlasiantaeth i alluogi ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a thrawma yn amlwg ac mae teuluoedd mewn perygl o ganlyniadau gwael.

## Amcanion Cyffredinol y Rhaglen

- Gweithlu cymwys a hyderus i ymateb yn fwy effeithiol i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE mewn plismona amser cyflym ac araf.
- Capasiti a gallu sefydliadol sy'n rhagweithiol yn cwrdd â gofynion newidiol
- 'Drws ffrynt' 24/7 integredig sengl ar gyfer pobl sy'n agored i niwed sy'n cyfeirio, yn cefnogi ac yn diogelu sy'n cynnwys gwasanaethau 'golau glas', lles ac iechyd.
- Ymateb system gyfan i bobl sy'n agored i niwed drwy weithredu dulliau wedi'u llywio gan ACE ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol.

# Y Dull Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod Cenedlaethol i Blismona Pobl Sy’n Agored i Niwed:

## Rhaglen Camau Cynnar gyda’n Gilydd (E.A.T.)

Camau Cynnar gyda’n Gilydd
Early Action Together

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

**Wedi’i hariannu gan y Swyddfa Gartref i gyflwyno rhaglen o newid ledled Cymru (2018-2020), mae’r rhaglen E.A.T. yn gydweithrediad unigryw rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), pedwar heddlu Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, mewn partneriaeth â sefydliadau Cyfiawnder Troseddol, Cyfiawnder Ieuenctid a’r trydydd sector.**

Mae’r rhaglen yn mynd ati i fynd i’r afael â’r galw cynyddol ar wasanaethau gan bobl sy’n agored i niwed i weddnewid y ffordd y mae’r heddlu ac asiantaethau partner yn cydweithio i ymateb i bobl sy’n agored i niwed y tu hwnt i ddiogelu statudol. Gan gydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a chamau ataliol, bydd y rhaglen yn datblygu ymateb systemau cyfan i bobl sy’n agored i niwed er mwyn sicrhau bod llwybrau cymorth ar gael i’r heddlu pan fydd y graddau o fod yn agored i niwed yn disgyn yn is na’r trothwyon ar gyfer cymorth statudol. Gan adeiladu i mewn i’r systemau presennol, bydd y gwaith hwn yn defnyddio asedau cymunedol presennol i ddatblygu cronfa o adnoddau i’r heddlu a phartneriaid eu defnyddio wrth gefnogi pobl yn eu cymunedau.

Mae’r adroddiad hwn yn un o gyfres o gyhoeddiadau ymchwil a fydd yn ein galluogi i ddeall a dangos tystiolaeth effaith y rhaglen E.A.T.:

- Trosglwyddo o arloesi gan yr heddlu i raglen gweddnewid genedlaethol: trosolwg o’r broses o gynyddu hyfforddiant a gwerthuso wedi’i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) a thrawma
- Deall tirwedd plismona wrth ymateb i bobl sy’n agored i niwed: cyfweliadau gyda swyddogion rheng flaen ledled Cymru
- Gwerthusiad o’r hyfforddiant wedi’i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda’n Gilydd (ACE TIME): cyflwyno cenedlaethol i’r heddlu a phartneriaid
- Galluogi ymyrraeth gynnar ac atal wrth blismona pobl sy’n agored i niwed: gwerthusiad o rôl yr heddlu wrth ddarparu gwasanaethau integredig aml-asiantaeth
- Safbwyntiau’r heddlu ar yr hyfforddiant wedi’i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda’n Gilydd (ACE TIME) ar draws Cymru.




Mae’r rhaglen ymchwil hon yn ymchwilio i effaith ymateb ymyrraeth gynnar ac ataliol i bobl sy’n agored i niwed mewn plismona a’r system cyfiawnder troseddol. Mae ymchwil a gwerthuso yn cael ei gwblhau ynghylch hyfforddiant ACE TIME, a sut mae wedi cael ei ymgorffori; yn ogystal â gwerthuso llesiant yr heddlu a phartneriaid.

**I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen E.A.T. ewch i’r wefan: www.aces.me.uk**

# Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME):

## Dilyniant heddlu a phartneriaid wedi 15 mis

**Pecyn hyfforddi undydd a ddarparwyd gan y gwasanaeth cydlynu ACE o Barnardo's i addysgu'r heddlu a phartneriaid amlasiantaeth (MA) ar ACEs, eu heffaith ar ganlyniadau datblygu ac ymddygiadol, a sut i ymateb i ACEs mewn lleoliad heddlu. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad blaenorol, "Gwerthusiad o'r Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME)", a asesodd ddata arolwg a gasglwyd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ACE TIME i asesu effaith uniongyrchol yr hyfforddiant ar wybodaeth ac arfer yr heddlu a phartneriaid MA. Mae'r adroddiad cyfredol yn asesu sampl ddethol o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad hyfforddiant ACE TIME blaenorol, i archwilio a yw'r canlyniadau a welwyd yn syth ar ôl yr hyfforddiant wedi'u cynnal 9 i 15 mis ar ôl yr hyfforddiant.**

**Gwerthusiad cychwynnol**

Amser 1 = cyn-hyfforddiant
Heddlu N = 849
Partneriaid MA N= 147

→

Amser 2 = yn syth ar ôl hyfforddiant
Heddlu N= 849
Partneriaid MA N= 147

→

**Gwerthusiad cyfredol**

Amser 3 = dilyniant 9-15 mis
Heddlu N=198
Partneriaid MA N= 47

| Newidynnau a Ddadansoddwyd | Canfyddiadau'r Heddlu | Canfyddiadau Partneriaid MA |
|---|---|---|
| Hyder wrth weithio gydag ACEs | Gostyngodd yn sylweddol | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus |
| Hyder wrth weithio gyda phobl agored i niwed | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus |
| Canfyddiad o gyfrifoldeb dros ymddygiad gwrthgymdeithasol plentyn (ASB) | Cynyddodd yn sylweddol[1] | Cynyddodd yn sylweddol[1] |
| Canfyddiad o ba mor agored i niwed yw plentyn sy'n arddangos ASB. | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus |
| Canfyddiad o i ba raddau y mae digwyddiad ASB yn fater i'r heddlu. | Cynyddodd yn sylweddol | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus |
| Canfyddiad o ba mor agored i niwed yw plant mewn digwyddiad cam-drin yn y cartref. | Gostyngodd yn sylweddol[1] | Wedi'i gynnal yn llwyddiannus |

## Er mwyn i'r hyfforddiant gael ei gynnal…



**Yn dilyn yr hyfforddiant, nododd yr heddlu eu bod eisiau sesiynau hyfforddiant gloywi, cefnogaeth a chyllid parhaus gan y llywodraeth, gwell ymwybyddiaeth o asiantaethau ar gyfer cyfeirio pobl agored i niwed, cydweithredu pellach rhwng asiantaethau partner, a sefydlu mecanwaith adborth rheolaidd ar ffurflenni atgyfeirio a chanlyniadau.**

Roedd partneriaid MA yn fwy hyderus wrth weithio gydag ACEs na'r heddlu

Roedd menywod yn fwy hyderus wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed na dynion.

Roedd menywod a staff mwy profiadol o'r farn bod plant a oedd yn bresennol mewn digwyddiad cam-drin yn y cartref yn fwy agored i niwed nag yr oedd cyfranogwyr eraill.

[1] Mae canfyddiadau a/neu hyder cyfranogwyr wedi newid i gyfeiriad anffafriol naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant.

# Cynnwys

Ffeithlun Canfyddiadau ....................................................................... 3

1. Cyflwyniad ....................................................................................... 6

2. Dulliau ............................................................................................ 8

3. Canfyddiadau ..................................................................................... 9
   - Cymhwyso hyfforddiant yn ymarferol .............................................................. 9
   - Hyder wrth weithio gydag ACEs ................................................................... 10
   - Hyder wrth weithio gyda phobl agored i niwed ............................................... 11
   - Lefelau canfyddedig o gyfrifoldeb person ifanc mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol ......................................................................... 12
   - Lefelau canfyddedig o ba mor agored yw person ifanc mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol ......................................................................... 13
   - Canfyddiadau o'r senario ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater i'r heddlu ......................................................................... 14
   - Lefelau canfyddedig o ba mor agored i niwed yw plant mewn senario cam-drin yn y cartref ......................................................................... 15
   - Rhwystrau a galluogwyr i gynaliadwyedd .............................................. 16

4. Casgliadau ....................................................................................... 17

5. Cyfeiriadau ...................................................................................... 20

Atodiad 1 - Cymariaethau demograffig ..................................................... 21

Atodiad 2 - Dull methodolegol ................................................................ 22

Atodiad 3 - Newidiadau a chyfeiriad y newidiadau o Amser 2 i Amser 3 ...... 24

Atodiad 4 - Cyfyngiadau methodolegol ..................................................... 25

# Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad

| | |
|---|---|
| **ACE** | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| **AC** | Cydlynydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| **Hyfforddiant ACE TIME** | Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd |
| **ASB** | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| **E.A.T** | Camau Cynnar gyda'n Gilydd |
| **MA** | Amlasiantaeth |
| **NPCC** | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |

# 1. Cyflwyniad

Yng Nghymru, yn yr un modd ag ar draws y DU, mae anghenion cymhleth cymunedau amrywiol yn golygu bod galw cynyddol am wasanaethau'r heddlu [1]. Mae swyddogion rheng flaen yn ymateb nid yn unig i droseddu, ond i faterion diogelwch y cyhoedd, lles a bod yn agored i niwed [2], lle mae cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn dod i'r amlwg.

O'r herwydd, aeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona ati i weddnewid plismona i wella eu hymateb i'r galw hwn [3]. Nod gweledigaeth NPCC 2025 yw datblygu gweithlu sy'n gallu gweithredu'n annibynnol a chydag atebolrwydd [3]. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu'n gallu nodi pobl sy'n agored i niwed ar y cyfle cyntaf a lleihau'r risg o niwed drwy ymyrraeth gynnar ac atal â phartneriaid. Yng ngoleuni'r her hon, nod y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (EAT) yw cefnogi pedwar heddlu'r wlad i ddatblygu dull Cymru gyfan o gefnogi pobl sy'n agored i niwed. Fel rhan o'r rhaglen hon, datblygwyd hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen a staff amlasiantaeth (MA) i wella eu dealltwriaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ac effeithiau trawma ar gwrs bywyd a'u hymateb iddynt.

Yn 2017, cafodd dull wedi'i lywio gan ACE o blismona pobl sy'n agored i niwed ei dreialu i ddechrau o fewn Heddlu De Cymru [4], a'i addasu'n ddiweddarach yn Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME), a gyflwynwyd ar draws heddluoedd yn 2018 (gweler Blwch 1 am ragor o wybodaeth am yr hyfforddiant ACE TIME). Ystyriodd y gwerthusiad cychwynnol o'r hyfforddiant ACE TIME ei effaith uniongyrchol ar wybodaeth, hyder ac ymarfer yr heddlu a phartneriaid MA [5]. Datgelodd canfyddiadau fod gwybodaeth a dealltwriaeth o weithio gyda  phobl sy'n agored i niwed ac ACEs, a'r effaith y gallant ei chael, wedi cynyddu ar ôl yr hyfforddiant, gan alluogi cyfranogwyr i ymateb yn fwy hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE. Archwiliwyd barn cyfranogwyr hyfforddiant ar werth a chynnwys yr hyfforddiant hefyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr hyfforddiant, trwy gyfweliadau un i un [6]. Mae'r adroddiad yn nodi sut roedd yr heddlu'n teimlo bod yr hyfforddiant wedi gwella eu gwybodaeth a'u harfer ac yn amlygu bod angen cefnogaeth bellach i ymgorffori'r hyfforddiant yn eu rolau.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar werthusiad dilynol gyda chyfranogwyr hyfforddiant ACE TIME. Mae'n ceisio darganfod a gynhaliwyd y newidiadau cadarnhaol a nodwyd yn y gwerthusiad hyfforddiant ACE TIME cychwynnol [5] ar ôl naw i bymtheg mis ar ôl mynychu'r hyfforddiant. Y newidiadau cadarnhaol o'r gwerthusiad blaenorol yr edrychir arnynt yn yr adroddiad hwn yw:

- Lefelau hyder sylweddol well wrth weithio gydag ACEs.
- Lefelau hyder sylweddol well wrth weithio gyda phobl agored i niwed.
- Yr heddlu yn meddu ar lefelau sylweddol is o gyfrifoldeb person ifanc canfyddedig mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol; gan eu bod yn cydnabod effaith amgylcheddau cartref ansefydlog ac ACEs fel dylanwadwyr ar ymddygiadau pobl ifanc.
- Lefelau sylweddol uwch o ganfyddiad o ba mor agored i niwed yw  plant wrth iddynt weld senario cam-drin yn y cartref.

## Mae gan y gwerthusiad cyfredol yr amcanion canlynol:

**Archwilio a yw canfyddiadau cadarnhaol o'r gwerthusiad hyfforddiant ACE TIME cychwynnol wedi'u cynnal dros ddilyniant tymor hwy (h.y. naw i bymtheg mis ar ôl hyfforddiant).**

## Blwch 1. Cyflwyno a chynnwys hyfforddiant ACE TIME

- Pecyn hyfforddi undydd, gorfodol a ddarperir yn lleoliadau'r heddlu ac mewn lleoliadau allanol gan wasanaeth Cydlynu ACE Barnardo's rhwng Hydref 2018 a Mawrth 2020.
- Roedd y Cydlynwyr ACE (ACs) yn gyflogeion Barnardo's a oedd â phrofiad o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Roedd gan bob ardal heddlu 2-3 AC a gyflwynodd yr hyfforddiant mewn parau. Ar ôl yr hyfforddiant, parhaodd ACs i gefnogi'r trosglwyddiad i weithlu wedi'i lywio gan drawma trwy broses o ymgorffori.
- Mynychodd 6447 o heddlu, staff yr heddlu, recriwtiaid newydd, ac asiantaethau partner o Dde Cymru (N=2288), Dyfed Powys (N=1135), Gwent (N=1690), a Gogledd Cymru (N=1334).
- Defnyddiodd yr hyfforddiant gyfuniad o ymarferion ar arddull darlithoedd a chyfranogiad/grŵp i archwilio bod yn agored i niwed a sut i ddefnyddio dull wedi'i lywio gan drawma. Roedd yr adnoddau'n cynnwys fideos addysgol wedi'u hanimeiddio ac astudiaethau achos i wella dysgu cysylltiedig â'r byd go iawn.

### Nodau'r hyfforddiant:

1. Cefnogi'r gweithlu i gynyddu ymwybyddiaeth o ACEs a thrawma cysylltiedig a'r effaith ar draws y cwrs bywyd.
2. Galluogi unigolion i ymateb yn gymwys ac yn hyderus gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE
3. Cefnogi dull system gyfan gyda phartneriaid i atal a lliniaru ACEs.

# 2. Dulliau

Yn dilyn y gwerthusiad cychwynnol o gyflwyno cam un yr hyfforddiant ACE TIME (2018-19) [5], casglwyd data meintiol ac ansoddol pellach gan yr heddlu a phartneriaid MA naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant (y cyfeirir atynt wedi hyn fel 'dilyniant') i archwilio cynaliadwyedd y canlyniadau hyfforddi. Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno data dilynol gan 245 o gyfranogwyr (198 aelod o staff yr heddlu; 47 partner MA) ar draws pob un o bedair ardal yr heddlu yng Nghymru. Yn unol ag amcan cyfredol yr adroddiad, dim ond ar ddata gan y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg gwerthuso blaenorol y gwnaed dadansoddiad (hy cyn-hyfforddiant [Amser 1]; yn syth ar ôl hyfforddiant [Amser 2]). Gellir gweld manylion y sampl hon yn Atodiad 1 Tablau 1 a 2. Adolygwyd y gwerthusiad o hyfforddiant ACE TIME ar draws pob pwynt amser a'i gymeradwyo gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil a Datblygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (IRAS cyf: 2535898). Cysylltwyd â chyfranogwyr yr hyfforddiant trwy e-bost i'w gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad Amser 3. Felly mae'r rhai a gydsyniodd ac a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn sampl hunan-ddethol.

Dyluniodd y tîm ymchwil fersiwn ar-lein a phapur o'r arolwg dilynol i gynyddu hygyrchedd. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau demograffig ac yna pum graddfa yn asesu Hyder yr Heddlu wrth Weithio gyda Phobl sy'n Agored i Niwed (PCWV, [7]), canfyddiad o fod yn agored i niwed a chyfrifoldeb mewn ymateb i senarios plismona gweithredol, ac ymgorffori'r hyfforddiant yn ymarferol. I gael mwy o wybodaeth am y graddfeydd hyn gweler Atodiad 2, neu'r gwerthusiad hyfforddiant ACE TIME gwreiddiol ar gyfer eitemau graddfa penodol.

Dadansoddwyd ymatebion i'r arolwg gan ddefnyddio sgorau cymedrig ar gyfer pob un o'r graddfeydd a'r is-raddfeydd. Defnyddiwyd dadansoddiad arwyddion graddedig Wilcoxon i archwilio cyfeiriad newid agweddau a hyder yr heddlu ac MA rhwng Amser 2 a 3. Yna cafodd y canlyniadau eu categoreiddio yn newidynnau deuaidd (ee 0 = lefelau hyder canolig i isel; 1 = lefelau hyder uchel) i redeg atchweliadau logistaidd deuaidd i bennu dylanwad annibynnol ffactorau demograffig (hy rhyw, hyd gwasanaeth, partneriaid MA neu grŵp heddlu) ar ganlyniadau'r hyfforddiant.

Trwy gydol yr arolwg gwahoddwyd cyfranogwyr i roi sylwadau ychwanegol ar flychau testun agored yn gofyn am: eu lefelau hyder a chymhwysedd wrth gymhwyso'r hyfforddiant yn ymarferol; agweddau tuag at negeseuon hyfforddi; eu gallu i gymhwyso'r hyfforddiant; a'u barn ar y senarios plismona gweithredol.


Dadansoddwyd y sylwadau gan ddefnyddio meddalwedd ATLAS.ti; gan ganolbwyntio ar enghreifftiau o gonsensws ac anghytuno â'i gilydd yn ogystal â gyda'r negeseuon hyfforddi. I gael mwy o wybodaeth am y dull methodolegol llawn a ddefnyddiwyd, cyfeiriwch at Atodiad 2.


# 3. Canfyddiadau

Cyflwynir crynodeb allweddol o'r prif ganfyddiadau yn yr is-adrannau isod. Mewn **glas tywyll** mae'r canfyddiadau sy'n cyfeirio at yr holl gyfranogwyr, mae'r canlyniadau mewn **glas golau** yn cyfeirio at ymatebion swyddogion yr heddlu, ac mae'r canlyniadau mewn **oren yn cyfeirio at ymatebion partneriaid MA.** Gellir gweld canlyniadau manylach yn Atodiad 3 yr adroddiad.

## Cymhwyso'r hyfforddiant yn ymarferol

**Nododd 81% o'r holl gyfranogwyr fod yr hyfforddiant wedi'u galluogi i ymateb yn hyderus i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE (atebwyd fel cymedrol neu lawer iawn).**




**Nododd 48% o staff yr heddlu eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant mewn arfer naill ai'n gymedrol neu lawer iawn.**

### O'r sampl o gyfranogwyr a adawodd sylwadau yn yr arolwg (N=98),cafwyd:

**Nododd 13% o'r heddlu fod yr hyfforddiant wedi gwella eu cymhwysedd wrth wneud atgyfeiriadau a chyfeirio unigolion at yr asiantaethau cywir.**

*"Mae Hyfforddiant ACE wedi darparu ymwybyddiaeth o'r hyn ydyn nhw [ACEs] a pha ffactorau a allai fod wedi arwain at y sefyllfa [rydw i'n] ymateb iddi. Rwy'n weddol hyderus o ran nodi ACEs a'u cysylltu ag ymddygiad, neu'r digwyddiad, a byddaf yn ystyried hyn wrth benderfynu ar gamau gweithredu cymesur"*

Heddlu, Gwent

**Nododd 33% o'r heddlu eu bod wedi defnyddio'r hyfforddiant i nodi ACEs a bod yn fwy ymwybodol yn gyffredinol o'r hyn yw ACEs a'u heffaith ar y cyhoedd.**

*"Rwyf wedi lleihau'r galw trwy allu cyfeirio at rwydweithiau, asiantaethau ac elusennau priodol"*

Heddlu, Gogledd Cymru

[2] Mae'r holl ganrannau ar y dudalen hon wedi'u talgrynnu.

# Hyder wrth weithio gydag ACEs

**Canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:**

Yn Amser 1 roedd gan yr heddlu a phartneriaid lefelau cymedrol o hyder wrth weithio gydag ACEs; a gynyddodd yn sylweddol i hyder uchel yn Amser 2.

**Nododd 39.2% o'r heddlu a phartneriaid eu bod yn hyderus iawn wrth weithio gydag ACEs ar Amser 3.**


Mae hyn yn cymharu â **5.1%** o'r cyfranogwyr yn Amser 1 yn hyderus iawn wrth weithio gydag ACEs, a **51.1%** ar Amser 2.

Datgelodd canfyddiadau pellach fod partneriaid MA 2.8 gwaith yn fwy tebygol na'r heddlu o deimlo'n hyderus ynghylch gweithio gydag ACEs ar Amser 3[4].


*"Rwy'n weddol hyderus o ran nodi ACEs a'u cysylltu ag ymddygiad, neu'r digwyddiad, a byddaf yn ystyried hyn wrth benderfynu ar gamau gweithredu cymesur."*

Heddlu, Gwent

Roedd gwella hyder cyfranogwyr wrth weithio gydag ACEs yn un o amcanion allweddol yr hyfforddiant. Mesurwyd hyder yn syth cyn (amser 1) ac ar ôl yr hyfforddiant (amser 2), ac yna yn ystod y dilyniant (amser 3) ar raddfa 10 pwynt Likert o (1) ddim yn hyderus o gwbl, i (10) yn gwbl hyderus (N=222). Cyfunwyd pum cwestiwn hyder ar wahân i gynhyrchu sgôr gymedrig gyffredinol, lle mae sgorau uchel yn cynrychioli hyder uwch.




**Gostyngodd yr hyder wrth weithio gydag ACEs i'r heddlu ond fe'i cynhaliwyd gan bartneriaid MA yn Amser 3.**




Gostyngodd yr hyder wrth weithio gydag ACEs yn sylweddol i'r heddlu o Amser 2 i 3, gyda **64.9%** o'r heddlu yn dangos **gostyngiadau mewn sgorau hyder**[5].

Roedd newidiadau yn lefelau hyder partneriaid MA rhwng Amser 2 ac Amser 3 **wedi'u cynnal**.

[3] Mae hyder uchel yn sgôr o 9 neu 10.
[4] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer ardal yr heddlu, hyd gwasanaeth, a rhyw.
[5] Prawf arwyddion graddedig Wilcoxon (z=5.60, p <.001).

# Hyder wrth weithio gyda phobl agored i niwed

**Canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:**

Yn Amser 1 roedd gan yr heddlu a phartneriaid lefelau uchel o hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed, a gynyddodd yn sylweddol yn Amser 2.

**Roedd 46.5% o'r heddlu a phartneriaid yn hyderus iawn wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn Amser 3.**


Roedd **27.5%** yn hyderus[6] wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed ar Amser 1, a **40.2%** ar Amser 2.

Roedd menywod 3 gwaith yn fwy tebygol na dynion o deimlo'n hyderus iawn wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn Amser 3[7].


*"Rwy'n teimlo'n hyderus iawn o allu ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Gallaf ddeall ymddygiadau ac agweddau agored i niwed mewn pobl oherwydd y dull ACEs"*

Partner MA, De Cymru

Roedd gwella hyder cyfranogwyr wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn un o amcanion allweddol yr hyfforddiant. Mesurwyd hyder yn syth cyn (amser 1) ac ar ôl yr hyfforddiant (amser 2), ac yna yn ystod y dilyniant (amser 3) ar raddfa 10 pwynt Likert o (1) 'ddim yn hyderus o gwbl', i (10) 'yn gwbl hyderus' (N=226). Cyfunwyd pedair eitem hyder ar wahân i gynhyrchu sgôr gymedrig gyffredinol, lle mae sgorau uchel yn cynrychioli hyder uwch.




**Cafodd hyder wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed ei gynnal ar Amser 3.**




Roedd newidiadau yn lefelau hyder yr heddlu a phartneriaid MA wrth weithio gyda phobl agored i niwed **wedi'u cynnal** o Amseroedd 2 i 3.

[6] Mae hyderus iawn yn sgôr o 9 neu 10.
[7] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer ardal yr heddlu, hyd gwasanaeth, a grŵp y sampl (partneriaid MA neu staff yr heddlu).

# Lefelau canfyddedig o gyfrifoldeb person ifanc mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:**

Bu gostyngiad sylweddol yn y canfyddiadau o gyfrifoldeb person ifanc gan yr heddlu o Amser 1 i Amser 2, ond dim gwahaniaeth i bartneriaid.

**Roedd 5.1% o'r heddlu a phartneriaid yn ystyried bod y person ifanc yn hynod gyfrifol am ei weithredoedd[8].**


Ar Amser 1, roedd **12.7%** o'r cyfranogwyr yn credu bod person ifanc yn hynod gyfrifol am ei weithredoedd. Gostyngodd hyn wedi hynny i 6.6% yn Amser 2, ond ni chynhaliwyd y newidiadau ar Amser 3.

*"Er bod amgylchiadau lliniarol a dealltwriaeth pam, mae angen i'r bachgen ifanc fod yn gyfrifol o hyd am ei weithredoedd."*


Heddlu, Gwent

Er mwyn asesu a oedd cyfranogwyr yn cydnabod hanes a chyd-destun unigolyn fel ysgogwyr trosedd, dangoswyd iddynt senario lle mae person ifanc yn arddangos arwyddion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofynnwyd iddynt: "Pa mor gyfrifol yw'r person ifanc am ei weithredoedd?" wedi'i raddio ar raddfa o (1) ddim yn gyfrifol i (10) 'hollol gyfrifol' (N=196), wedi'i fesur yn Amser 1, 2 a 3. Gall sgorau is o bosibl ddatgelu cydnabyddiaeth o ddylanwadau lluosog ar ymddygiad, yn unol â safbwyntiau mwy gwybodus am drawma.

**Canfyddiadau o gyfrifoldeb person ifanc mewn senario ASB**




**Cynyddodd ganfyddiadau o gyfrifoldeb person ifanc mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sylweddol yn Amser 3.**




Roedd lefelau canfyddedig o gyfrifoldeb person ifanc **wedi cynyddu'n sylweddol**, gyda **61%** o'r heddlu[9] a **54.1%** o bartneriaid MA[10] yn dangos lefelau uwch o gyfrifoldeb canfyddedig person ifanc o Amser 2 i 3.

[8] Cipiwyd canfyddiadau o gyfrifoldeb uchel gyda sgorau o 9 neu 10
[9] Prawf arwyddion graddedig Wilcoxon (z=5.96, p<.001).
[10] Prawf arwyddion graddedig Wilcoxon (z=3.38.60, p<.001).

# Lefelau canfyddedig o ba mor agored i niwed yw person ifanc mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y canfyddiadau o ba mor agored i niwed oedd person ifanc gan yr heddlu o Amser 1 i Amser 2, ond dim gwahaniaeth i bartneriaid.

**Roedd 20.3% o'r heddlu a phartneriaid yn ystyried bod person ifanc yn hynod agored i niwed yn y senario ymddygiad gwrthgymdeithasol[11].**

Ar Amser 1, roedd **20.3%** o'r cyfranogwyr yn credu bod y person ifanc yn hynod agored i niwed. Cynyddodd hyn wedi hynny i **26.2%** yn Amser 2, a gostyngodd eto yn Amser 3.


Roedd menywod **3.8** yn fwy tebygol o ystyried bod y plentyn yn hynod agored i niwed yn y senario hwn[12].

*"Ynddo'i hun nid yw'n fater difrifol o'i gymharu ag achosion eraill rydym yn delio â hwy SUT BYNNAG os na fydd ymyrraeth yna bydd y person ifanc hwn yn y pen draw yn mynd i'r system droseddol ac yn ôl pob tebyg yn cael ei ddefnyddio gan gangiau llinellau sirol"*


Heddlu, Gogledd Cymru

Yn y senario ymddygiad gwrthgymdeithasol gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd: "Pa mor agored i niwed ydych chi'n ystyried yw'r person ifanc hwn?" ar raddfa o (1) 'ddim o gwbl' i (10) 'yn hynod o agored i niwed' (N=202), wedi'i fesur yn Amser 1, 2 a 3. Gall sgorau uwch o bosibl ddatgelu bod cyfranogwyr yn adnabod ACEs yn y senario a'u heffaith ar fod yn agored i niwed.

**Canfyddiadau o'r senario ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater i'r heddlu**




**Cafodd canfyddiadau o berson ifanc agored i niwed mewn senario ymddygiad gwrthgymdeithasol eu cynnal yn Amser 3.**




Roedd newidiadau yn lefelau hyder yr heddlu a phartneriaid MA wrth weithio gyda phobl agored i niwed **wedi'u cynnal** o Amseroedd 2 i 3.

[11] Cipiwyd canfyddiadau o gyfrifoldeb uchel gyda sgorau o 9 neu 10.
[12] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer hyd gwasanaeth, a grŵp y sampl (partneriaid MA neu staff yr heddlu).

# Canfyddiadau o'r senario ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater i'r heddlu

### Canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:

Dangosodd cyfranogwyr gynnydd sylweddol yn y canfyddiadau bod y digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu o Amser 1 i Amser 2.

**Roedd 17.1% o'r heddlu a phartneriaid yn ystyried bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu[13]**

Ar Amser 1, roedd **12.7%** o'r cyfranogwyr yn ystyried yn gryf bod y senario hwn yn fater i'r heddlu. Cynyddodd hyn i **17.7%** ar Amser 2, a gostyngodd ychydig yn Amser 3.


Roedd yr heddlu **5.5** gwaith yn fwy tebygol na phartneriaid MA i ganfod bod y digwyddiad yn y senario yn fater i'r heddlu[14].

*"Gall hyn ymddangos yn fân beth ond dyma lle gallwn nodi a mewnbynnu ymyriadau cynnar i atal ASB pellach"*


Heddlu, De Cymru

Yn y senario ymddygiad gwrthgymdeithasol gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd: "Ydych chi'n credu bod hwn yn fater i'r heddlu?" ar raddfa o (1) 'ddim o gwbl' i (10) 'yn bendant' (N=199), wedi'i fesur yn Amser 1, 2 a 3. Roedd sgorau uwch yn ddymunol gan eu bod o bosibl yn dangos cydnabyddiaeth cyfranogwyr o fod yn agored i niwed fel cyfrifoldeb plismona.

**Canfyddiadau o'r senario ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater i'r heddlu**




**Cynyddodd canfyddiadau o senario ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu yn sylweddol i'r heddlu ac fe'i cynhaliwyd gan bartneriaid MA yn Amser 3.**




Cynyddodd ganfyddiadau o'r senario ymddygiad gwrthgymdeithasol fel mater i'r heddlu yn sylweddol ymhlith yr heddlu rhwng amser 2 i 3, gyda **47.3%** o'r heddlu[15] yn dangos sgôr uwch ar y mesur hwn.

Roedd newidiadau yng nghanfyddiad partneriaid MA o'r senario ASB yn fater i'r heddlu **wedi'u cynnal** o Amser 2 i Amser 3.

[13] Cipiwyd canfyddiadau uwch o'r digwyddiad ASB fel mater i'r heddlu gyda sgorau o 9 neu 10.
[14] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer hyd gwasanaeth, a rhyw.
[15] Prawf arwyddion graddedig Wilcoxon ($z=2.16$, $p<.05$).

# Lefelau canfyddedig o ba mor agored i niwed yw plant mewn senario cam-drin yn y cartref.

**Canfyddiadau o adroddiad gwerthuso ACE TIME blaenorol [5]:**

Roedd gan yr heddlu a phartneriaid MA lefelau sylweddol uwch o ganfyddiad o ba mor agored i niwed yw plant yn y senario cam-drin yn y cartref o Amser 1 i Amser 2.

**Ystyriodd 47.7% o'r heddlu a phartneriaid fod y plant yn y senario yn agored iawn i niwed[16].**


Ar Amser 1, roedd **48.5%** o gyfranogwyr yn credu bod y plant yn y senario yn hynod agored i niwed. Cynyddodd hyn ar Amser 2 i **62.6%** ond mae wedi gostwng yn Amser 3.

Ar Amser 3 roedd menywod **2.8** gwaith yn fwy tebygol na dynion o ganfod bod plant yn y senario hwn yn hynod agored iawn i niwed[17].


Roedd gweithwyr proffesiynol gydag 20+ mlynedd o brofiad yn y maes hefyd **3.2** gwaith yn fwy tebygol o ganfod bod y plant yn agored i niwed o'u cymharu â'r rhai sydd â llai na 3 blynedd o brofiad yn Amser 3[18].

Er mwyn asesu a oedd y cyfranogwyr hyfforddedig yn deall beth yw ACEs a'u heffaith ar lesiant plant, dangoswyd senario iddynt yn cynnwys plant yn gweld cam-drin yn y cartref a gofynnwyd iddynt: "Pa mor agored i niwed ydych chi'n ystyried yw'r plant yn y teulu hwn?" wedi'i raddio ar raddfa o (1) 'ddim o gwbl' i (10) 'hynod agored i niwed' (N=197), wedi'i fesur yn Amser 1, 2 a 3. Nododd sgorau uwch fod y cyfranogwr yn adnabod y digwyddiad cam-drin yn y cartref fel math o ACEs a oedd yn effeithio ar y plant oedd yn bresennol yn y cyfeiriad, sy'n unol â gweithio ar sail wedi'i lywio gan ACE.

**Canfyddiadau o bobl ifanc agored i niwed mewn senario cam-drin yn y cartref**




**Gostyngodd canfyddiadau o ba mor agored i niwed oedd plant mewn senario cam-drin yn y cartref yn sylweddol i'r heddlu ond fe'u cynhaliwyd gan bartneriaid MA yn Amser 3.**




Roedd lefel canfyddedig o ba mor agored i niwed oedd plant yn Amser 3 yn sylweddol is nag yn Amser 2 i'r heddlu, gyda 43.2% o'r heddlu â sgorau oedd wedi gostwng ar y raddfa yn Amser 3[19].

Cynhaliwyd newidiadau yng nghanfyddiad partneriaid MA o ba mor agored i niwed oedd plant mewn senario cam-drin yn y cartref o Amser 2 i 3.

[16] Cipiwyd canfyddiadau o fod yn hynod agored i niwed gyda sgorau o 9 neu 10;
[17] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer ardal yr heddlu, hyd gwasanaeth, a grŵp y sampl partneriaid MA neu staff yr heddlu).
[18] Canfyddiadau atchweliad logistaidd deuaidd; cymhareb ods wedi'i haddasu ar gyfer rhyw, ardal yr heddlu, a grŵp y sampl (partneriaid MA neu staff yr heddlu).
[19] Prawf arwyddion graddedig Wilcoxon (z=3.21, p<.01).

## Rhwystrau a galluogwyr i gynaliadwyedd

**Roedd 1 o bob 10 o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd y seilwaith angenrheidiol i weithredu'r hyfforddiant yn effeithiol ar waith eto ac roedd angen ei ymgorffori ymhellach er mwyn gwneud i staff deimlo'n fwy hyderus wrth lywio'r systemau newydd.**

**Roedd awgrymiadau o ran ymgorffori gan gyfranogwyr i gynnal cynaliadwyedd y rhaglen yn cynnwys:**

**Sesiynau hyfforddi rheolaidd a/neu loywi pellach i gynorthwyo cyfranogwyr i wella eu sgiliau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am systemau newydd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r hyfforddiant.**

*"Rwy'n teimlo'n hyderus ond bob amser yn credu bod mwy i'w ddysgu i adeiladu'r hyder hwnnw ymhellach"*

Partner MA, De Cymru

*"Angen mewnbwn pellach wrth i bethau newid yn rheolaidd ym mhob sefydliad"*

Heddlu, De Cymru

**Gwell ymwybyddiaeth o'r asiantaethau partner sydd ar gael a llwybrau cyfathrebu er mwyn cael gafael ar gymorth.**

*"Rwy'n gwybod am rai llwybrau y gallwn ymgysylltu â nhw fel dull amlasiantaeth o ddelio â phroblemau ond mae'n debyg nad ydym yn llwyr ymwybodol o'r hyn sydd ar gael nawr"*

Heddlu, Gogledd Cymru

**Creu a pharhau mecanweithiau i gefnogi'r adborth am y ddarpariaeth ar gyfer atgyfeiriadau a gyflwynir.**

*"Rwy'n edrych yn rheolaidd ar ddigwyddiadau ac os yw plentyn yn rhan o'r peth rwy'n gwirio pa mor aml y mae ef/hi yn ymwneud â'r Heddlu ac yn sicrhau bod PPNs wedi'u cyflwyno ar gyfer yr unigolyn hwnnw fel y gall gael yr ymyrraeth sydd ei angen arno."*

Heddlu, De Cymru

**Ac awgrymiadau ar gyfer newid system yn ehangach:**

**Cefnogaeth a chyllid y llywodraeth a systemau ehangach.**

*"Mae hyfforddiant ACE yn sicr wedi codi ymwybyddiaeth. Rwy'n credu y bydd cymdeithas oni bai ei bod yn cael ei chefnogi'n llawn gan gyllid priodol gan y llywodraeth yn ei chael yn anodd gweithredu'n ystyrlon yn y maes hwn. "*

Heddlu, Gwent

# 4. Casgliadau

Archwiliodd y gwerthusiad cyfredol gynaliadwyedd y canfyddiadau cadarnhaol o'r hyfforddiant ACE TIME cychwynnol ar adeg dilyniant naw i bymtheg mis. Serch hynny, mae gan yr adroddiad cyfredol sawl cyfyngiad y dylid eu cydnabod wrth ddehongli'r canfyddiadau. Gellir gweld y rhain yn Atodiad 4.

Ar y cyfan, nododd 80.7% o'r heddlu a phartneriaid MA fod y pecyn hyfforddiant wedi eu galluogi i ymateb yn hyderus i bobl sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant. Yn ogystal â hyn, nododd hanner (48%) o staff yr heddlu eu bod wedi defnyddio'r hyfforddiant ACE TIME yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Adroddodd yr heddlu fod yr hyfforddiant wedi newid y ffordd y maent yn meddwl ac yn ymateb i ddigwyddiadau trwy eu gwneud yn fwy ymwybodol o ACEs, sut i'w hadnabod, a sut i atgyfeirio a chyfeirio unigolion yn briodol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr hyfforddiant wedi parhau i gael effaith ystyrlon ar ymddygiad a ffyrdd o weithio rhai o'r cyfranogwyr naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant.

Er gwaethaf hyn, bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr heddlu a nododd eu bod yn teimlo'n hyderus wrth weithio gydag ACEs rhwng Amser 2 i 3. Mae hyn yn awgrymu na chynhaliwyd y cynnydd mewn hyder a nodwyd ar gyfer yr heddlu yn syth ar ôl yr hyfforddiant (Amser 2) yn y tymor hwy (Amser 3). Mewn cyferbyniad, cynhaliwyd hyder partneriaid MA mewn dilyniant tymor hir (Amser 3). Datgelodd canfyddiadau pellach fod partneriaid MA 2.8 gwaith yn fwy tebygol na'r heddlu o deimlo'n hyderus ynghylch gweithio gydag ACEs ar Amser 3. Nid oedd yn bosibl archwilio'r hyn a allai fod wedi cyfrannu at y gwahaniaethau rhwng lefelau hyder partneriaid MA a'r heddlu wrth weithio gydag ACEs. Fodd bynnag, ffactor cyfrannu posibl yw'r ffordd y mae'r egwyddorion a/neu'r cysyniadau hyfforddi yn cyd-fynd â'r cyd-destun plismona mewn cyferbyniad ag asiantaethau partner. Er enghraifft, gall partneriaid MA fod wedi'u hyfforddi ac yn gweithio o fewn diwylliant proffesiynol sydd wedi'i wreiddio mewn model mwy cyfannol (ac felly'n llai penderfyniadol) sy'n cydnabod penderfynyddion ehangach ac yn ystyried y cysylltiadau rhwng adfyd y gorffennol neu'r presennol, y cyflwyniad cyfredol (ee ymddygiad) ac ymateb. Mewn cyferbyniad, gall canfyddiadau'r heddlu o gyflwyniad cyfredol a'r ymateb gofynnol barhau i fod wedi'u gwreiddio mewn model gorfodi'r gyfraith, sydd yn ei hanfod yn fwy penderfyniadol; gyda hyfforddiant a chymhwysiad i'r heddlu yn canolbwyntio ar lwybrau ymateb ymddygiad a bennwyd ymlaen llaw. Yn ogystal â'r ffordd y mae'r hyfforddiant ACE TIME yn cyd-fynd â hyfforddiant arall a ddarperir gan sefydliadau priodol y cyfranogwyr, o bosibl yn gwneud i bartneriaid MA deimlo'n fwy hyderus na'r heddlu ar yr adeg hon. Efallai y gallai ymchwiliad pellach anelu at gymharu'r galluogwyr a'r rhwystrau ar gyfer yr heddlu a phartneriaid MA wrth gymhwyso'r hyfforddiant er mwyn ei addasu, a/neu systemau trefniadol yr heddlu, yn ddigonol. Gallai adroddiad 'Safbwyntiau'r Heddlu ar effaith hyfforddiant ACE TIME ledled Cymru' [6] helpu i lywio'r agwedd ymchwilio hon. At hynny, yn unol â sylwadau cyfranogwyr, gallai heddluoedd asesu dichonoldeb hyfforddiant gloywi pellach yn ogystal â chefnogaeth, rhaglenni mentoriaeth, a chydweithrediad rhwng asiantaethau partner a'r heddlu i gynnal eu lefelau hyder wrth weithio gydag ACEs.

Canfu gwerthusiad blaenorol o hyfforddiant ACE TIME fod lefelau hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed wedi cynyddu yn syth ar ôl yr hyfforddiant (Amser 1 i 2) [5]. Mae'r gwerthusiad cyfredol yn datgelu bod y sgorau hyn wedi'u cynnal naw i bymtheg mis yn ddiweddarach (o Amser 2 i 3). Fodd bynnag, roedd menywod 3 gwaith yn fwy tebygol na dynion o deimlo'n hyderus iawn wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn Amser 3. Ni fu'n bosibl pennu pam y cynhaliodd yr heddlu lefelau hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed tra gostyngodd eu hyder wrth weithio gydag ACEs. Fodd bynnag, ffactor posibl fyddai unrhyw hyfforddiant a/neu gefnogaeth gyflenwol bellach, naill ai'n uniongyrchol neu'n systemig, a dderbyniwyd gan bartneriaid MA nad oedd ar gael i'r heddlu. Byddai ymchwilio a chymharu pellach rhwng ffordd yr heddlu ac asiantaethau partner o weithio sy'n galluogi gweithredu hyfforddiant yn fuddiol. At hynny, fel yr awgrymwyd yn y sylwadau, gallai hyfforddiant gloywi posibl a/neu gydweithrediad pellach â phartneriaid MA, gan gynnwys mecanweithiau adborth, helpu'r heddlu i gynnal eu hyder wrth weithio gydag ACEs.

Canfu gwerthusiad blaenorol o'r hyfforddiant ACE TIME, ar ôl derbyn yr hyfforddiant (Amser 2), fod yr heddlu o'r farn bod y person ifanc sy'n ymwneud â senario ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llai cyfrifol am ei weithredoedd nag yr oedd cyn yr hyfforddiant (Amser 1). Roedd y newid yn y canfyddiad o gyfrifoldeb y person ifanc i'r heddlu yn unol â negeseuon allweddol yr hyfforddiant; gyda lefelau isel o gyfrifoldeb canfyddedig yn awgrymu lefelau uwch o empathi tuag at y person ifanc, mwy o ymwybyddiaeth o ACEs, a'u heffaith ar ymddygiad. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd y newid hwn naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant (Amser 3). Priodolodd yr heddlu a phartneriaid MA lawer mwy o gyfrifoldeb i'r person ifanc am ei weithredoedd yn y dilyniant, gan awgrymu na chynhaliwyd negeseuon hyfforddiant o amgylch ACEs a'u goblygiadau mewn ymddygiad troseddol. Ar y llaw arall, mae'r gwerthusiad cyfredol yn dangos bod canfyddiad cyfranogwyr o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc wedi'u cynnal yn y dilyniant (o Amser 2 i 3), ar ôl cynyddu'n sylweddol yn syth ar ôl yr hyfforddiant [5]. Mae'r canfyddiadau ynghylch cyfrifoldeb y person ifanc yn ddiddorol. Yn y llenyddiaeth, mae'r dull wedi'i lywio gan drawma yn cydnabod efallai na fydd y person ifanc hwn yn atebol am ei weithredoedd oherwydd profiadau trawmatig sy'n lleihau gallu plentyn i reoleiddio ei emosiynau, gan arwain at fynegiadau mwy adweithiol sy'n aml yn amlygu eu hunain mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol [8,9]. Felly mae angen strwythur a hyblygrwydd o ran dulliau, nad yw'n aml yn dderbyniol o fewn paramedrau fframwaith cyfreithiol y DU. Er enghraifft, yn ôl y Coleg Plismona, rôl plismona yw "cadw trefn, dod â throseddwyr o flaen eu gwell, ac amddiffyn pobl ac eiddo ac atal cyflawni troseddau", a all achosi gwrthdaro wrth gymhwyso dulliau wedi'u llywio gan drawma o fewn plismona. Mae sgorau cymedrig yr arolwg yn tynnu sylw at hyn gyda'r heddlu'n gweld y plentyn yn agored i niwed ac yn gyfrifol am ei weithredoedd *"Er bod amgylchiadau lliniarol a dealltwriaeth pam, mae angen i'r bachgen ifanc fod yn gyfrifol am ei weithredoedd o hyd."* (40 benyw, Gwent).

Diffiniodd yr hyfforddiant safbwynt wedi'i lywio gan drawma ac iechyd cyhoeddus fel un sy'n ystyried achosion sylfaenol ymddygiad problemus, a'r dylanwad posibl y gallai adfyd plentyndod a digwyddiadau trawmatig (ee cam-drin a gweld trais yn y cartref) eu cael ar weithredoedd unigolyn. Er enghraifft, yn aml gellir dysgu ymddygiadau neu gallant weithredu fel mynegiadau emosiynol neu adweithiol ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd rheoleiddio eu hemosiynau. Fodd bynnag, mae'r heddlu'n parhau i gydnabod ac ystyried pa mor agored i niwed yw'r person ifanc a allai agor cyfleoedd i ymgysylltu'n well â thramgwyddwyr sy'n agored i niwed, ac agor cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar. Serch hynny, dylai ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio ar y rhwystrau systematig ehangach a'r galluogwyr mewn plismona wrth gymhwyso dulliau wedi'u llywio gan drawma, er mwyn helpu i roi'r ymyriadau hyn ar waith yn llwyddiannus. Mae adroddiad safbwyntiau'r heddlu ar weithredu hyfforddiant ACE TIME [5] yn ymchwilio i'r mater hwn ymhellach.

Yn ogystal, canfu gwerthusiad blaenorol o ACE TIME, yn syth ar ôl yr hyfforddiant, fod cyfranogwyr yn ystyried bod y digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy o fater i'r heddlu nag yr oeddent cyn yr hyfforddiant [5]. Canfu'r adroddiad cyfredol fod y farn hon wedi'i chynnal gan bartneriaid MA, tra cynyddodd yn sylweddol i'r heddlu adeg dilyniant (Amser 3). Mae hyn yn awgrymu bod yr heddlu wedi parhau i gydnabod y senario ASB fel cyfle ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag cynyddu i ymddygiad troseddol pellach. Cefnogir y canfyddiad hwn yn rhai o'r sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr, *"Nid yw'r achos hwn yn ddifrifol ond mae arwyddion y gallai'r plentyn fod yn profi 1 neu fwy o ACEs ac os felly gallai ymyrraeth leihau ei debygolrwydd o barhau â'r ymddygiad hwn a chyflawni troseddau yn y dyfodol."* (26 benyw, Dyfed Powys). Gallai ymchwil yn y dyfodol ymchwilio i weld a fu cynnydd mewn ymyriadau cynnar ac atgyfeiriadau diogelu ac a yw'r rhain wedi cael effaith wrth leihau achosion o aildroseddu a'r rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. Gallai ymchwil bellach hefyd ymchwilio i weld a yw ymyriadau cynnar ac atgyfeiriadau diogelu wedi arwain at fwy o bobl agored i niwed yn derbyn ymyrraeth gan asiantaethau partner ac a yw'r rhain yn cael effaith hirdymor.

Ni chynhaliwyd canfyddiadau'r heddlu o lefelau bod yn agored i niwed plant yn y senario cam-drin yn y cartref rhwng Amser 2 a 3 chwaith. Unwaith eto, er y gwelwyd cynnydd cychwynnol yng nghanfyddiadau'r heddlu o ba mor agored i niwed oedd plant yn syth ar ôl yr hyfforddiant (Amser 2), dychwelodd yr effaith hon i lefelau cyn hyfforddiant yn y dilyniant. Mae hyn yn awgrymu bod effeithiau

cadarnhaol yr hyfforddiant yn para am amser cyfyngedig. Serch hynny, cynyddodd lefelau canfyddedig MA o ba mor agored i niwed oedd plant rhwng y cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant [5] ac roeddent yn parhau i gael eu cynnal naw i bymtheg mis ar ôl yr hyfforddiant. Yn ogystal, roedd menywod a staff yr heddlu â hyd gwasanaeth hirach 2.8 a 3.2 gwaith yn fwy tebygol (yn y drefn honno) o ystyried bod y plant yn hynod agored i niwed yn y senario cam-drin yn y cartref o'u cymharu â dynion a staff yr heddlu oedd â llai o flynyddoedd o wasanaeth. Gallai hyn fod oherwydd bod cyfranogwyr â chyfnodau hirach o hyd gwasanaeth wedi cronni mwy o brofiad ac felly'n gallu adnabod pobl agored i niwed yn well. Efallai, gellid cynnal ymchwiliad pellach i archwilio ffyrdd y gellir defnyddio gwybodaeth a phrofiad cyfranogwyr o fewn yr hyfforddiant a/neu'r sefydliad i hwyluso'r cais am hyfforddiant a'r effaith.

Yn ôl sylwadau cyfranogwyr, gellid ystyried bod sesiynau hyfforddiant gloywi yn atgyfnerthu rhai o'r negeseuon na chawsant eu cynnal ar adeg dilyniant o fewn yr heddlu. Gallai hyn gynnwys:  hyder wrth weithio gydag ACEs, cyfrifoldeb canfyddedig ac effaith ACEs ar ymddygiad, a'r cysylltiad rhwng ACEs a bod yn agored i niwed. Sylw arall a wnaed gan gyfranogwyr oedd yr angen am well ymwybyddiaeth a chydweithrediad rhwng asiantaethau partner, gan gynnwys gweithredu mecanweithiau adborth ar ffurflenni atgyfeirio a chanlyniadau. Gallai hyn fod o fudd i lefelau hyder yr heddlu wrth weithio gydag ACEs, a chanfyddiad o ba mor agored i niwed yw plant sy'n profi ACEs. Mae'r sylwadau hyn yn gyson â'r rhai yr adroddwyd arnynt mewn adroddiad rhaglen EAT blaenorol a archwiliodd anghenion hyfforddiant a sefydliadol yr heddlu i hwyluso cymhwyso'r hyfforddiant trwy gyfweliadau un i un chwech i ddeuddeg mis ar ôl yr hyfforddiant [6]. Mae hyn yn awgrymu bod yr anghenion pellach canfyddedig, yr ymdrinnir â hwy yn y sylwadau, yn glir ac yn drosglwyddadwy; a bod mwyafrif yr heddlu'n teimlo bod diwallu'r anghenion hyn yn hanfodol i effeithiolrwydd tymor hir yr hyfforddiant.

Dylid ystyried dysgu allweddol o'r gwerthusiad dilynol hwn ochr yn ochr â chanfyddiadau'r gwerthusiad cyntaf o'r hyfforddiant ACE TIME [5], a safbwyntiau'r heddlu ar effaith yr hyfforddiant ACE TIME ledled Cymru [6] i lywio unrhyw ddatblygiad neu weithrediad yn y dyfodol o hyfforddiant ACE TIME. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r materion cynaliadwyedd a nodwyd yn benodol yma, gwneir yr awgrymiadau canlynol ar gyfer camau y gellir eu hystyried i gefnogi hirhoedledd canlyniadau hyfforddiant cadarnhaol ymhellach:

## Camau a awgrymir ar gyfer cynaliadwyedd yr hyfforddiant:

- **Archwilio ymarferoldeb cynnal hyfforddiant gloywi, gan gynnwys pennu a gwerthuso canlyniadau posibl, pa mor aml y mae ei angen, a'r gynulleidfa darged.**
- **Archwilio ymarferoldeb defnyddio gwybodaeth a phrofiadau'r cyfranogwyr mwyaf hyderus a/neu wybodus am ACE (benywaidd, MA, a'r rhai sydd â'r hyd gwasanaeth hiraf) yn yr hyfforddiant, a/neu ardaloedd yr heddlu, i gefnogi cynaliadwyedd ac ymgorffori'r hyfforddiant mewn arfer.**
- **Archwilio a chymharu'r galluogwyr a'r rhwystrau ar gyfer defnyddio'r hyfforddiant o fewn yr heddlu a phartneriaid MA i addasu'r hyfforddiant, a/neu'r systemau, yn ddigonol.**
- **Gwella cyfranogiad partneriaid MA mewn hyfforddiant i wella ymwybyddiaeth o sefydliadau MA, llwybrau cyfathrebu, gweithredu ac ymateb i bobl agored i niwed.**
- **Sicrhau bod dulliau ACE cyfredol o fewn plismona yn parhau i gael eu hymgorffori. Cynnwys gwella dolenni atgyfeirio ac adborth i gefnogi cydweithrediadau amlasiantaeth yn ogystal â staff yn cymhwyso'r hyfforddiant yn eu rolau o ddydd i ddydd.**

# Cyfeiriadau


1. Coleg Plismona. College of Policing analysis: Estimating demand on the police service [Internet]. 2015. Ar gael o: https://www.college.police.uk/News/College-news/Documents/Demand Report 23_1_15_noBleed.pdf
2. Barton ER, Mcmanus MA, Johnson G, Harker S, Ramos Rodriguez G, Newbury A, et al. Deall tirwedd plismona wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed: cyfweliadau gyda swyddogion rheng flaen ledled Cymru. Caerdydd; 1919
3. Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu Policing Vision 2025 [adroddiad ar y rhyngrwyd]. 2016. Ar gael o: https://www.npcc.police.uk/documents/Policing Vision.pdf
4. 4. Ford K, Evans J, Newbury A, Meredith Z, Roderick Gwerthusiad o beilot yr hyfforddiant Dull wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) at Blismona Pobl sy'n Agored i Niwed (AIAPVT). Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2017.
5. Glendinning F, Barton ER, Newbury A, McManus MA, Janssen H, Johnson G, et al. Gwerthusiad o'r hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME): cyflwyno cenedlaethol i'r heddlu a phartneriaid. 2020;
6. Janssen H, Harker S, Barton E, Newbury A, Jones B, Ramos Rodriguez G. Safbwyntiau'r heddlu ar yr hyfforddiant wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME) ar draws Cymru. Caerdydd;
7. Newbury A, Barton ER, McManus MA, Ramos- Rodriguez G, Johnson G, Janssen H, et al. Transitioning from Police Innovation to a National Programme of Transformation: An overview of the upscaling of Adverse Childhood Experience (ACE) and trauma-informed training and evaluation. 2019;48.
8. NCC for MH and SCI for Excellence. Antisocial behaviour and conduct disorders in children and young people. The NICE Guideline on Recognition, Intervention, and Management. [Rhyngrwyd]. Cymdeithas Seicolegol Prydain a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion; 2017. Ar gael oddi wrth: http://www.nice.org.uk/guidance/cg158
9. Public Health England. Policing and Health Collaboration in England and Wales Landscape review Policing and health collaboration in England and Wales: Landscape review 2 About Public Health England [Rhyngrwyd]. 2018. Ar gael gan: www.facebook.com/PublicHealthEngland

# Atodiad 1 – Cymariaethau demograffeg

Pennodd cymhariaeth ddemograffeg rhwng y sampl wreiddiol a'r sampl lai yn Amser 3 eu bod yn gyfrannol debyg. Ni phrofwyd hyn trwy ddadansoddiad ystadegol.

**Tabl 1. Cymhariaeth ddemograffeg rhwng sampl heddlu Amser 1 ac Amser 3.**

| Demograffeg | Sampl Wreiddiol | | Sampl Ddilynol | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| **Cyfanswm y cyfranogwyr** | 849 | 100 | 198 | 23.32 |
| **Ystod oedran** | 19 – 66 | | 20 – 58 | |
| **Oed cymedrig** | 36.6 | | 38.8 | |
| 18-25 oed | 91 | 10.7 | 11 | 5.6 |
| 26-35 oed | 316 | 37.2 | 67 | 34.0 |
| 36- 45 oed | 218 | 25.7 | 64 | 32.5 |
| 46+ oed | 171 | 20.1 | 55 | 27.9 |
| **Rhyw**[20] | | | | |
| Benywaidd | 320 | 37.7 | 82 | 41.4 |
| Gwrywaidd | 476 | 56.1 | 110 | 55.6 |
| **Rôl swydd** | | | | |
| Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu | 115 | 13.5 | 37 | 18.7 |
| Cwnstabl yr Heddlu | 479 | 56.4 | 108 | 54.5 |
| Ditectif Gwnstabl | 42 | 4.9 | 6 | 3.0 |
| Rhingyll yr Heddlu | 92 | 10.8 | 28 | 14.1 |
| Ditectif Rhingyll | 13 | 1.5 | 3 | 1.5 |
| Staff yr Heddlu | 34 | 4.0 | 7 | 3.5 |
| Arall[21] | 21 | 4.5 | 8 | 4.0 |
| **Ardal heddlu** | | | | |
| Gogledd Cymru | 222 | 27.8 | 62 | 31.3 |
| De Cymru | 177 | 22.2 | 31 | 15.7 |
| Heddlu Gwent | 294 | 36.8 | 82 | 41.4 |
| Dyfed Powys | 106 | 13.3 | 23 | 11.6 |

**Tabl 2. Cymhariaeth ddemograffeg rhwng sampl partneriaid MA Amser 1 ac Amser 3**

| Demograffeg | Sampl Wreiddiol | | Sampl Ddilynol | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| **Cyfanswm y cyfranogwyr** | 147 | 100 | 47 | 31.97 |
| **Ystod oedran** | 18 – 64 | | 26 – 60 | |
| **Oed cymedrig** | 42.8 | | 40.19 | |
| 18-25 oed | 12 | 8.2 | - | - |
| 26-35 oed | 29 | 19.7 | 19 | 40.4 |
| 36- 45 oed | 31 | 21.1 | 10 | 21.3 |
| 46+ oed | 63 | 42.8 | 18 | 38.3 |
| **Rhyw**[20] | | | | |
| Benywaidd | 113 | 76.9 | 40 | 85.1 |
| Gwrywaidd | 24 | 16.3 | 7 | 14.9 |
| **Sector** | | | | |
| Addysg/gwasanaethau | 32 | 21.7 | 13 | 27.7 |
| CYD Diogelu/gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth teuluol | 32 | 21.7 | 13 | 27.7 |
| Gweithiwr Iechyd a Llesiant | 32 | 21.7 | 10 | 21.3 |
| Tai / cymunedol / awdurdod lleol | 23 | 15.6 | 5 | 10.6 |
| Arall[21] | 18 | 12.2 | 6 | 12.8 |
| **Ardal heddlu** | | | | |
| Gogledd Cymru | 54 | 36.7 | 18 | 38.3 |
| De Cymru | 9 | 6.1 | 7 | 14.9 |
| Heddlu Gwent | 44 | 29.9 | 15 | 31.9 |
| Dyfed Powys | 25 | 17.0 | 7 | 14.9 |

[20] Cafodd cyfranogwyr nad oeddent yn hunan-adnabod fel dynion neu fenywod eu heithrio o'r tabl hwn i ddiogelu eu anhysbysrwydd.
[21] Mae Arall yn cynnwys: Arolygwyr, Cyfathrebu ac Anfon, a Swyddogion Arbennig.

# Atodiad 2 - Dull methodolegol

## Sampl a gweithdrefn

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull samplu cyfleustra haenedig i recriwtio cyfranogwyr i'r dilyniant. Yn gyntaf, e-bostiwyd yr holl gyfranogwyr (n=900) a oedd wedi cydsynio i ni gysylltu â nhw ar gyfer dilyniant yn ystod y gwerthusiad cyntaf gan aelod o'r tîm ymchwil yn eu gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad dilynol. Roedd yr e-bost yn cynnwys linc i arolwg ar-lein a fersiwn dogfen Word o'r arolwg dilynol, taflen wybodaeth i gyfranogwyr yn manylu ar ddibenion yr ymchwil, y cod ID unigryw er mwyn paru eu hymatebion â'u hen atebion, gwybodaeth am reoli data, a datganiad bod cyfranogiad yn wirfoddol ac yn gyfrinachol. Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddewisodd lenwi'r arolwg ar ddogfen Word ei e-bostio yn ôl at y tîm ymchwil ar ôl ei lenwi; roedd hyn yn wir am heddlu Dyfed Powys yn unig, oherwydd o ganlyniad i reoliadau diogelu data nid oeddent yn gallu cwblhau fersiwn ar-lein yr arolwg.

Tua mis yn ddiweddarach, cysylltwyd ag arweinwyr heddlu lleol EAT i raeadru'r gwahoddiadau e-bost i'w holl staff, gyda'r linc i'r arolwg ar-lein a'r ddogfen Word gyfatebol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth o'r blaen, y rhai a oedd wedi'u hyfforddi ond nad oeddent wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad gwreiddiol, a'r rhai nad oeddent wedi cael hyfforddiant nac wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad blaenorol.

Anogwyd yr heddlu a phartneriaid MA a gymerodd ran yn yr hyfforddiant yn flaenorol trwy e-bost i gwblhau'r arolwg ddwywaith gan y tîm ymchwil cyn i arweinwyr yr heddlu ddosbarthu e-byst ledled yr heddlu. Amcangyfrifwyd y byddai'r arolwg yn cymryd tua 15-20 munud i'w lenwi, ac roedd y cyfranogwyr yn gallu ei lenwi yn ôl eu pwysau. Casglwyd yr holl ddata ar gyfer yr adroddiad hwn rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019 (tua naw i bymtheg mis ar ôl i'r cyfranogwyr fynychu'r hyfforddiant ACE TIME)

## Mesurau

Isod mae crynodeb byr o'r mesurau a ddefnyddiwyd. Am fwy o fanylion, gweler yr adroddiad hyfforddiant ACE TIME blaenorol (5).

| | |
|---|---|
| **Demograffeg** | Oed, rhyw, ardal yr heddlu, rôl swydd, sector, hyd gwasanaeth, a dyddiad cwblhau hyfforddiant ACE TIME. |
| **Hyder yr heddlu wrth weithio gyda phobl agored i niwed (PCWV)** | Mesurodd y PCWV (9 eitem) hyder y cyfranogwyr o ran deall sut i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (4 eitem) a hyder wrth ddeall a gweithio gydag ACEs (5 eitem). Sgoriwyd yr hyder gan ddefnyddio graddfa Likert 10 pwynt a amrywiai o (1) *'ddim yn hyderus o gwbl'* i (10) *'yn gwbl hyderus'.* |
| **Ymatebion i senarios plismona gweithredol** | Darllenodd y cyfranogwyr senario ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys plentyn, a senario cam-drin yn y cartref mewn aelwyd lle'r oedd plant yn bresennol. Yna ymatebodd y cyfranogwyr i saith datganiad ar raddfa 10 pwynt Likert, o (1) *'ddim o gwbl'*, i (2) *'yn bendant',* gan fesur eu barn broffesiynol a'u penderfyniadau mewn perthynas â'r senarios. |
| **Ymateb i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE** | Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod y pecyn hyfforddiant wedi eu harfogi i ymateb yn hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE, ar raddfa 5 pwynt Likert yn amrywio o (1) *'ddim o gwbl'* i (5) *'llawer iawn'.* |

## Dadansoddiadau data

**Data meintiol:** Cafodd data eu trin a'u dadansoddi gan ddefnyddio meddalwedd Ystadegau SPSS (fersiwn 24). Glanhawyd yr holl ddata, nodwyd eitemau coll, trawsnewidiwyd eitemau perthnasol i gyfrif ar gyfer ôl-godio, a chyfatebwyd data gan gyfranogwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth yn flaenorol ar draws y tri phwynt amser gan ddefnyddio eu cod ID unigryw, rhyw, oedran a  manylion ardal yr heddlu. Yn gyntaf, cyfrifwyd sgorau cymedrig ar gyfer pob un o'r gwahanol raddfeydd er mwyn cynnal dadansoddiadau arwyddion graddedig Wilcoxon o Amser 2 neu Amser 1, i Amser 3 i benderfynu a oedd y canfyddiadau yn syth ar ôl hyfforddiant ACE TIME wedi'u cynnal, wedi cynyddu, neu wedi gostwng ar adeg y dilyniant (Amser 3).

Wedi hyn, cafodd cymedrau newidynnau yn Amser 3 eu hail-gategoreiddio yn newidynnau deuaidd (e.e. yn hyderus iawn neu ddim yn hyderus iawn), ac fe'u defnyddiwyd i redeg atchweliadau logistaidd i asesu a oedd y canlyniadau yn y dilyniant wedi'u dylanwadu'n sylweddol gan ffactorau demograffig. Roedd hyn yn cynnwys hyd gwasanaeth, rhyw a chefndir sefydliadol (yr heddlu neu bartneriaid MA).

Roedd **data ansoddol** yn cynnwys blychau sylwadau agored a lenwyd yn yr arolwg gyda'r anogiadau "Esboniwch eich ateb" neu "Unrhyw sylwadau pellach". Defnyddiwyd meddalwedd Excel (fersiwn 8) i gyfrif nifer yr achosion o themâu yn ymwneud â chynaliadwyedd yr hyfforddiant a/neu ei gymhwysiad.

# Atodiad 3 - Newidiadau a chyfeiriad newidiadau o Amser 2 i Amser 3

**Tabl 3: Newidiadau a chyfeiriad newidiadau cyfranogwyr o Amser 2 i Amser 3.**

| Graddfeydd ac eitemau | Heddlu | | | | | MA | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gostyngiadau (%) | Cynnydd (%) | Cyfartal (%) | Gwerth Z | Gwerth P | Gostyngiadau (%) | Cynnydd (%) | Cyfartal (%) | Gwerth Z | Gwerth P |
| Lefel hyder wrth ymateb i ACEs | 64.88 | 26.79 | 8.33 | 5.60 | **.000** | 40.48 | 40.48 | 19.05 | .18 | .857 |
| Lefel hyder wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed | 37.43 | 45.61 | 16.96 | 1.60 | .109 | 52.63 | 26.32 | 21.05 | 1.75 | .081 |
| Senario ASB - Pa mor gyfrifol yw'r person ifanc am ei weithredoedd? | 15.07 | 60.96 | 23.97 | 5.96 | **.000** | 18.92 | 54.05 | 27.03 | 3.38 | .001 |
| Senario ASB - Pa mor agored i niwed ydych chi'n ystyried yw'r person ifanc hwn? | 36.91 | 31.54 | 31.54 | .63 | .527 | 26.32 | 34.21 | 39.47 | .063 | .950 |
| Senario ASB - Ydych chi'n credu bod hwn yn fater i'r heddlu? | 32.43 | 47.30 | 20.27 | 2.16 | **.031** | 45.95 | 24.32 | 29.73 | 1.22 | .223 |
| Senario DA - Pa mor agored i niwed ydych chi'n ystyried yw'r plant yn y teulu hwn? | 43.15 | 22.60 | 34.25 | 3.21 | **.001** | 24.32 | 27.03 | 48.65 | .657 | .511 |

Troednodyn: Amlygir canlyniadau ystadegol arwyddocaol mewn print trwm.

# Atodiad 4 - Cyfyngiadau methodolegol

Dylid cydnabod y cyfyngiadau canlynol wrth ddehongli'r canfyddiadau

- **Rhagfarn dewis** – Gwnaeth cyfranogwyr yr hyfforddiant hunanddethol i lenwi'r arolwg gwerthuso dilynol. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn yr hyfforddiant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad, nid yw'n bosibl penderfynu a gafodd pob unigolyn cymwys wahoddiadau o'r fath, na beth oedd y nifer gyffredinol a gymerodd ran yn yr arolwg.
- **Dim carfan gymharu rheolaeth** - Gan fod hyfforddiant yn eang ar draws heddluoedd, nid oedd yn bosibl cymharu'r rhai a hyfforddwyd â charfan heb ei hyfforddi. Felly, nid yw'n bosibl gwybod i ba raddau y gellir priodoli'r canlyniadau i'r hyfforddiant, neu ffactorau eraill (ee cefnogaeth sefydliadol bellach; gweler isod).
- **Prosesau cyflwyno arolwg ansafonol** – Cwblhawyd yr arolwg ar-lein ar gyfer tri allan o'r pedwar heddlu. Yn yr heddlu sy'n weddill, arweiniodd pryderon ynghylch diogelu data a chyfrinachedd at gwblhau fersiynau electronig o'r holiadur a gyflwynwyd yn Microsoft Word. Roedd y dull hwn yn debygol o fod wedi cymryd mwy o amser ac efallai ei fod wedi golygu ymgysylltiad cyfyngedig neu effeithiau amhenodol eraill ar gasglu data.
- **Dibynadwyedd adroddiad cyfranogwyr** – Yn yr arolwg dilynol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi pan wnaethant gwblhau'r hyfforddiant, gan nad oedd y wybodaeth hon ar gael fel arall i'r tîm ymchwil. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gyfranogwyr yn gallu dwyn i gof y manylion hyn yn gywir, gan arwain yn aml at ddata coll neu ddata na ellid eu defnyddio. Ymhellach, daeth yn amlwg bod rhai staff yr heddlu a MA wedi cwblhau'r arolwg dilynol, ond heb gwblhau'r hyfforddiant mewn gwirionedd. Ar gyfer yr astudiaeth gyfredol, barnwyd felly ei bod yn briodol defnyddio dim ond y cyfranogwyr hynny yr oedd yn bosibl paru eu harolygon ar draws yr holl bwyntiau amser. Arweiniodd hyn at sampl oedd wedi'i leihau'n sylweddol. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig nodi, ar ôl dadansoddiad pellach, y canfuwyd bod sampl yn y broses ddilynol yn gyfrannol debyg i'r sampl a gymerodd ran yn y gwerthusiad ACE TIME cyntaf o ran manylion demograffig.
- **Ffyddlondeb gweithredu a newidynnau allanol** – Yn ystod yr hyfforddiant, roedd y hyfforddwyr yn mireinio'r cynnwys a'r cyflwyniad yn barhaus. Er bod newidiadau o'r fath wedi'u rhoi ar waith i wella'r hyfforddiant a'i ganlyniadau, yn dilyn hynny nid oedd yn bosibl penderfynu yn union pa fersiwn o'r hyfforddiant a gafodd cyfranogwyr yn y gwerthusiad. Yn ogystal â newidiadau yn yr hyfforddiant, gweithredodd yr holl heddluoedd systemau a gweithdrefnau newydd hefyd i gynorthwyo eu staff i gymhwyso'r wybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant, a oedd yn amrywio yn ôl ardal yr heddlu ac o dîm i dîm.
- **Priodweddau seicometrig anhysbys y mesurau a ddefnyddiwyd** – Cafwyd cwestiynau'r arolwg lle bo hynny'n bosibl o raddfeydd dilysedig; serch hynny, crëwyd y rhan fwyaf o'r rhai yr adroddwyd arnynt at ddibenion y gwerthusiad hwn (hy y senarios plismona) ac felly nid yw eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd yn hysbys.

Camau Cynnar gyda'n Gilydd

Early Action Together

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

Mae Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn bartneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, pedwar Heddlu Cymru a'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Barnardo's, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM Cymru, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

## Gwybodaeth Gyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r tîm cenedlaethol yn

**earlyactiontogther@wales.nhs.uk**

@ACEsPoliceWales

Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Yr Heddlu a Phartneriaid ACEs